Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Bwrdd Cynghori Allanol ar gyfer y Cynllun Hawliau Pobl Anabl

Rheolau ar gyfer sut fydd y grŵp yn rhedeg



Medi 2026

Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o: **Bwrdd Cynghori Allanol ar gyfer Pobl Anabl – Cylch Gorchwyl (Wedi'i ddiweddaru ym mis Medi 2026).**



Gall geiriau mewn **glas** a thestun trwm fod yn anodd eu deall. Gallwch wirio eu hystyr ar **dudalen 33**.



Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Bwrdd Cynghori Allanol ar gyfer Pobl Anabl**. I gael gwybod mwy, cysylltwch â:

Gwefan: llyw.cymru/bwrdd-cynghori-allanol-ar-gyfer-y-cynllun-hawliau-pobl-anabl

E-bost: TimCynhwysiantPoblAnabl@llyw.cymru

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

Hawdd ei Ddeall Cymru wnaeth y ddogfen Hawdd ei Deall yma. Cliciwch yma i ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl.

Cynnwys

Am y ddogfen yma 4

Am ein grŵp 6

Ein nodau 9

Aelodau..... 12

Ysgrifenyddiaeth..... 23

Sut fyddwn ni'n rhedeg cyfarfodydd..... 25

Rhannu diweddariadau 28

Hyfforddiant..... 29

Cadw gwybodaeth yn ddiogel..... 30

Rheolau i'w dilyn 31

Diweddaru'r ddogfen yma 32


Geiriau anodd 33

Am y ddogfen yma

Enw'r ddogfen yma yw **Gylch Gorchwyl**. Mae dogfen **Cylch Gorchwyl** yn dweud:



- Y rheolau a'r syniadau ar gyfer sut y dylai grŵp redeg.



- Beth ydy nod y grŵp.



- Beth rydyn ni eisiau ei wneud.



- Beth rydyn ni'n ei ddisgwyl gan ein gilydd.



Mae hwn yn gylch gorchwyl ar gyfer y **Bwrdd Cynghori Allanol ar gyfer y Cynllun Hawliau Pobl Anabl.**

Am ein grŵp



Nod ein grŵp ydy cefnogi'r Cynllun Hawliau Pobl Anabl 10 mlynedd.

Fe fyddwn ni yn:



- Helpu i wneud yn siŵr bod lleisiau pobl anabl yn cael eu clywed. Fe fyddwn ni'n gwneud hyn trwy wneud yn siŵr ein bod yn gweithio gyda'n gilydd ac yn cynnwys pawb.



- Gwneud yn siŵr bod penderfyniadau wedi eu seilio ar anghenion pobl anabl. Fe fyddwn ni'n gwerthfawrogi profiadau bywyd go iawn pobl.



- Edrych ar sut mae'r cynllun yn gweithio yn gyffredinol. Fe fydd ein gwaith yn cefnogi'r Cynllun ac yn gwneud yn siŵr bod pobl anabl yn cael eu rhoi yn gyntaf.




- Edrych ar sut mae'r Cynllun yn mynd.



- Rhoi cyngor.



Fe fyddwn ni'n gweithio'n agos gyda fforymau a grwpiau pobl anabl eraill.



Fe fyddwn ni'n rhedeg rhwng 2025 a 2035. Mae hyn yn cyfateb i amser dechrau i ddiwedd y Cynllun Hawliau Pobl Anabl.



Fe fydd y cyfarfod cyntaf ym mis Mawrth 2026.



Fe fydd y Bwrdd fel arfer yn cyfarfod 4 gwaith y flwyddyn.



Mae cyfarfodydd yn gallu bod ar-lein, yn bersonol, neu'r ddau.

Ein nodau



- Rhannu gwybodaeth a phrofiad i helpu i gyflawni'r Cynllun.



- Monitro sut mae'r Cynllun yn gweithio. Edrych i weld bod y gwaith yn symud ymlaen.



- Helpu i gysylltu pobl anabl, llunwyr **polisi**, a gwasanaethau. Gwneud yn siŵr bod pobl anabl bob amser yn cael eu cynnwys.



Set o reolau ydy **polisi** ar gyfer sut y dylai pethau gael eu gwneud



- Adeiladu ymddiriedaeth gyda phobl. Gwrando ar Sefydliadau a Rhwydweithiau Pobl Anabl.



- Helpu i adnabod heriau newydd a brys sy'n effeithio ar bobl anabl.



- Rhoi cyngor arbenigol i'r llywodraeth.



- Rhannu enghreifftiau da i wneud newid cadarnhaol. Herio triniaeth annheg. Rhoi sylw i'r heriau ychwanegol mae pobl anabl yn eu hwynebu oherwydd eu hil, rhyw, oedran, rhywioldeb neu faint o arian sydd ganddyn nhw.



- Cefnogi Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl.



- Awgrymu meysydd ar gyfer ymchwil i wella cydraddoldeb i bobl anabl yng Nghymru.



- Sefydlu is-grwpiau pan mae angen.



- Awgrymu atebion os ydy problemau'n cael eu darganfod yn gynnar.



- Rhoi cyngor ar bethau i ganolbwyntio arnyn nhw nesaf wedi ei seilio ar brawf a phrofiad pobl.

Aelodau



Llywodraeth Cymru sydd yn gwahodd aelodau. Maen nhw'n cynnwys gwahanol bobl:

- Pobl anabl.
- Cynrychiolwyr o Sefydliadau Pobl Anabl.
- Pobl bwysig eraill ar draws Cymru.



Mae hyn er mwyn gwneud yn siŵr bod gan y Bwrdd lawer o brofiad a gwybodaeth wahanol.



Mae aelodau yn gallu hawlio arian i dalu costau mynd i gyfarfodydd ac ar gyfer teithio.

Fe fydd aelodau'n arwain ar feysydd fel:



- Teithio **hygyrch**, cartrefi, a byw'n annibynnol.



Mae **hygyrch** yn meddwl bod rhywbeth yn gallu cael ei ddefnyddio gan unrhyw un yn hawdd.



- Cyfathrebu a chyfryngau **hygyrch**.



- Swyddi a gweithleoedd **hygyrch**. Ac arian a budd-daliadau.



- Addysg **hygyrch** i bob oedran.



- Gofal cymdeithasol a chymorth **hygyrch**. Mae gofal cymdeithasol yn golygu gwasanaethau sy'n helpu pobl gyda'u bywyd bob dydd. Mae'n gallu bod yn help gartref, mewn canolfan ddydd, neu gan weithiwr cymdeithasol.



- Gofal iechyd **hygyrch**.



- Blynyddoedd cynnar, gofal plant, a chwarae i blant anabl.



- Diwylliant, fel amgueddfeydd a gwyliau, chwaraeon, a llesiant.



- Cynllunio argyfwng, ar gyfer pethau fel llifogydd a thanau, a gofalu am ein planed.



- Cyfiawnder **hygyrch**, sy'n meddwl gwasanaethau fel yr heddlu a'r llysoedd.



- Eiriolaeth **hygyrch**, sy'n meddwl cefnogi pobl i siarad drostyn nhw eu hunain neu siarad dros rywun.



- Hawliau pobl anabl yng Nghymru, y DU, a thramor.



- Technoleg ac **AI** – cyfrifiaduron sy'n gallu datrys problemau fel mae pobl yn gallu gwneud. Er enghraifft, ChatGPT, Siri a Alexa.

Rheolau aelodau'r bwrdd:



Rhaid i bob aelod nad yw'n rhan o Lywodraeth Cymru fod yn bobl anabl.



Mae 17 aelod o'r Bwrdd i gyd:

- 16 o bobl anabl.

- 1 person o Lywodraeth Cymru.



Nod y Bwrdd ydy cynnwys pobl â phrofiadau gwahanol ac o wahanol gefndiroedd.



Gofynnir i aelodau ddod i gyfarfodydd yn rheolaidd a chymryd rhan yng ngwaith y grŵp. Os nad ydyn nhw'n gwneud hynny, efallai y bydd cyfarfod i siarad am hynny ac i weld os dylen nhw aros ar y Bwrdd.



Fe fydd swyddogion eraill Llywodraeth Cymru neu siaradwyr gwadd yn ymuno â chyfarfodydd pan fo angen.

Cyd-gadeiryddion



Mae gan y Bwrdd 2 Gyd-gadeirydd:

- 1 sydd yn rhan o Lywodraeth Cymru.
- 1 person anabl.

Fe fydd y 2 Gyd-gadeirydd yn:



- Arwain cyfarfodydd.
- Rhoi cefnogaeth. Er enghraifft, i bobl sydd angen help i gymryd rhan.



- Gosod yr agenda cyn pob cyfarfod.
- Helpu pawb i gymryd rhan a rhannu syniadau.




- Gwneud yn siŵr bod trafodaethau yn deg ac yn gadarnhaol.

Fe fydd Cyd-gadeirydd Llywodraeth Cymru yn:



- Helpu'r Bwrdd i weithio gyda gwahanol dimau llywodraeth a gwahodd y bobl gywir.



- Dod o hyd i waith y llywodraeth sy'n cysylltu â nodau'r Bwrdd.



- Rhannu gwybodaeth am **bolisïau** a thimau'r llywodraeth.

Fe fydd y Dirprwy Gadeirydd yn:



- Cefnogi'r Cyd-gadeirydd i gynnal cyfarfodydd.



- Helpu i osod yr agenda a helpu pobl i gymryd rhan mewn cyfarfodydd.



- Arwain cyfarfodydd neu gynrychioli'r Bwrdd os oes angen.



Mae'r Cyd-gadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd yn gallu aros yn eu rolau am hyd at 5 mlynedd.

Tasglu Hawliau Anabledd



Mae'r Tasglu Hawliau Anabledd wedi gorffen ei waith. Cafodd y grŵp yma ei sefydlu ar ôl COVID-19 i ddelio gyda'r heriau mae pobl anabl yn eu hwynebu.



O 2026 i 2028:

- Fe fydd Cadeiryddion gweithgorau'r Tasglu Hawliau Anabledd yn ymuno â'n Bwrdd am 2 flynedd.

O 2028 i 2035:



- Mae unrhyw un yn gallu dod yn aelodau.
- Mae cyn-aelodau'r Bwrdd yn gallu ail ymgeisio.



- Os ydy aelod yn gadael neu'n gorffen ei dymor, mae'r swydd yn gallu cael ei llenwi.

Ysgrifenyddiaeth



Mae'r Ysgrifenyddiaeth yn dod o dîm Cynhwysiant Pobl Anabl Llywodraeth Cymru.



Maen nhw'n gwneud yn siŵr bod pob aelod o'r Bwrdd yn gallu cymryd rhan.

Byddan nhw'n:



- Cefnogi'r grwpiau i gysylltu â byrddau a grwpiau pwysig eraill.



- Rhannu papurau o leiaf 7 diwrnod cyn cyfarfodydd, yn yr ieithoedd a'r fformatau sydd eu hangen.



- Cadw cofrestr risg i reoli risgiau.



- Darparu dehonglwyr BSL a Cymraeg. A chymorth cyfathrebu arall pan mae angen.



- Gwneud yn siŵr bod yr holl anghenion yn cael eu hateb.



- Cymryd nodiadau o brif bwyntiau a chamau gweithredu yn unig.



- Gofyn i'r aelodau beth maen nhw eisiau ei roi ar yr agenda cyn cyfarfodydd.

Sut fyddwn ni'n rhedeg cyfarfodydd



Rhaid i aelodau ddilyn y **Model Cymdeithasol o Anabledd**.



Mae'r **Model Cymdeithasol o Anabledd** yn ffordd o feddwl am ac edrych ar anabledd.



Mae'n dweud bod y ffordd mae pethau'n gweithio yn stopio pobl anabl rhag gwneud pethau mae pobl sydd ddim yn anabl yn eu gwneud. Nid eu nam na'u gwahaniaeth sy'n eu stopio nhw.



Mae angen i ni wneud newidiadau ac addasu fel bod gwasanaethau yn ateb anghenion pobl.



Mae penderfyniadau yn cael eu gwneud ar y cyd.



Mae aelodau newydd yn gallu cael help gan aelodau eraill.



Mae aelodau yn parchu profiadau pobl ac yn cadw gwybodaeth yn breifat.



Mae agendâu ac adroddiadau yn gallu cael eu rhannu gyda phobl ar-lein. Ond rhaid i aelodau beidio â rhannu gwahoddiadau cyfarfod heb ofyn yn gyntaf.



Fe fydd cyfarfodydd yn **hygyrch**.



Gofalir am les yr aelodau.



Mae gwybodaeth bersonol yn cael ei chadw'n ddiogel ac yn dilyn y gyfraith.



Er mwyn i gyfarfod fynd yn ei flaen, rhaid i o leiaf hanner yr holl aelodau fynychu.



Rhaid i aelodau beidio ag anfon Cynorthwywyr AI i gyfarfod yn eu lle. Mae hon yn dechnoleg sy'n gallu gwneud tasgau i rywun. Mae'n iawn i bobl ddefnyddio technoleg ar gyfer cefnogaeth.



Mae Cyd-gadeiryddion yn gallu penderfynu cynnal cyfarfodydd ychwanegol os ydy hyn yn bwysig iawn.

Rhannu diweddariadau



Fe fydd y Tîm Cynhwysiant Pobl Anabl yn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf am y Cynllun Hawliau Pobl Anabl.



Fe fydd diweddariadau yn mynd i'r Bwrdd cyn cael eu rhannu ar-lein. Mae'r Bwrdd yn gallu adolygu a thrafod y diweddariadau.

Hyfforddiant



Fe fydd pob aelod o'r Bwrdd yn cael hyfforddiant. Fe fydd yr hyfforddiant ar:



- **Model Cymdeithasol Anabledd**.



- Diogelu. Mae hyn yn golygu gadw pobl yn ddiogel.



- Cadw gwybodaeth yn ddiogel.



Mae hyfforddiant ychwanegol yn gallu cael ei gynnig, fel siarad cyhoeddus a dysgu am gyfreithiau.

Cadw gwybodaeth yn ddiogel



Rhaid i aelodau gadw gwybodaeth yn breifat. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth sydd yn cael ei roi yn ysgrifenedig neu ar lafar mewn cyfarfodydd.



Rhaid i gynorthwywyr personol hefyd gadw gwybodaeth yn breifat.



Rhaid i bobl sy'n mynychu ar-lein wneud yn siŵr nad oes unrhyw un arall yn gallu clywed y cyfarfod.



Efallai y bydd pobl yn gofyn o dan y gyfraith am weld gwybodaeth y Bwrdd. Os bydd hyn yn digwydd, bydd Llywodraeth Cymru yn dilyn y rheolau.



Rhaid i'r Aelodau ddweud wrth y Cadeiryddion am unrhyw beth sydd yn gallu effeithio ar eu penderfyniadau.

Rheolau i'w dilyn



Rhaid i aelodau ddilyn 7 Egwyddor Bywyd Cyhoeddus.



Rhaid i aelodau fod yn barchus ac yn agored.



Rhaid i aelodau weithio'n dda gydag eraill. Rhaid iddyn nhw beidio â stopio eraill rhag cymryd rhan.



Os oes gennych chi unrhyw bryderon am ymddygiad aelod, rydych chi'n gallu siarad â'r Cyd-gadeiryddion neu swyddogion Llywodraeth Cymru.



Os ydy aelod yn ymddwyn yn wael, efallai y gofynnir iddyn nhw adael y Bwrdd.

Diweddaru'r ddogfen yma



Efallai y byddwn ni'n gwneud newidiadau i'r Cylch Gorchwyl.



Fe fydd y Bwrdd yn adolygu'r rheolau yma yn y flwyddyn gyntaf.

Geiriau anodd

Hygyrch

Mae hygyrch yn meddwl bod rhywbeth yn gallu cael ei ddefnyddio gan unrhyw un yn hawdd.

Model Cymdeithasol Anabledd

Mae'r Model Cymdeithasol o Anabledd yn ffordd o feddwl am ac edrych ar anabledd.

Mae'n dweud bod y ffordd mae pethau'n gweithio yn stopio pobl anabl rhag gwneud pethau mae pobl sydd ddim yn anabl yn eu gwneud. Nid eu nam na'u gwahaniaeth sy'n eu stopio nhw.

Mae angen i ni wneud newidiadau ac addasu fel bod gwasanaethau yn ateb anghenion pobl.

Polisi

Set o reolau ydy polisi ar gyfer sut y dylai pethau gael eu gwneud.

Photosymbols®
Publisher Licence 403527247